



Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

YMATEB AR Y CYD GAN CGGC A RHWYDWAITH CYDGYNHYRCHU CYMRU

1. [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) (CGGC) yw'r sefydliad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae ein gweledigaeth ni ar gyfer dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu drwy Gymru, gan wella llesiant i bawb. Ein cenhadaeth ni yw bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu. Mae CGGC yn bodoli er mwyn galluogi sefydliadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth llawer mwy gyda'i gilydd.
2. Mae CGGC yn gweithio gyda rhwydweithiau [Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector](#) (CPTS), drwy gynrychioli 26 categori o ddiddordeb trydydd sector, 19 o'r cynghorau gwirfoddol sirol (CGSau) ac asiantaethau datblygu eraill, er mwyn darparu strwythur cefnogi ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru.
3. Mae [Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru](#) yn sefydliad annibynnol sy'n gweithio i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gydgyhyrchu ac ymglymiad, er budd dinasyddion a'u cymunedau, y gweithwyr proffesiynol sy'n cyflawni gwasanaethau yn y sector statudol a'r trydydd sector, a'r cyrff cyhoeddus sy'n eu cefnogi nhw. Cenhadaeth y Rhwydwaith yw galluogi ymddiriedaeth, grym a chyfrifoldeb a rennir yn y manau lle mae dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus yn cwrdd. Ei gylch gorchwyl yw datblygu ymarfer da drwy'r sectorau a thrwy Gymru, a chefnogi gwneuthurwyr polisi a phenderfyniadau i lunio cyd-destun cadarnhaol ar gyfer y gwaith hwn.
4. Mae CGGC a'r Rhwydwaith Gydgyhyrchu yn croesawu'r cyfle i ymateb ar y cyd i ymgynghoriad ar y Bil a'r bwriad i gryfhau llais y dinesydd, sy'n ganolog i wella gwasanaethau, a'r ddyletswydd ychwanegol o wella gonestrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

5. Nodwn fod yn Bil yn canolbwyntio yn bennaf ar iechyd. Gan hynny, mae teitl y Bil yn gamarweiniol. Mae angen rhoi mwy o bwysigrwydd i sefydliadau gofal cymdeithasol (awdurdodau lleol) a'u cyfrifoldeb i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol a'i gwella (Rhan 2). Fel gyda chyrff cyhoeddus eraill, mae awdurdodau lleol angen bod yn agored a thryloyw pan mae pethau yn mynd o chwith, bod yn atebol a dysgu drwy brosesau cytunedig drwy gydgyngyrchu ag aelodau o'r cyhoedd.
6. Bydd Corff Llais y Dinesydd arfaethedig yn cael ei sefydlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac nid ar gyfer iechyd yn unig, ond nid yw hyn cael ei adlewyrchu yn ddigon clir yn y Bil i'w symud ymlaen fel is-deddfwriaeth.

DYLETSWYDD DIDWYLLEDD (RHAN 3)

7. Mewn egwyddor, mae'r weithdrefn didwylledd, fel ffordd o feddwl, gweithredu ac ymateb sy'n seiliedig ar werthoedd, eisoes wedi cael ei sefydlu mewn iechyd. Mae'n gosod disgwyliad ar feddygon, fel aelodau o'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, i gynnal eu dyletswydd broffesiynol. Yn yr un modd, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn disgwyl i staff fod yn agored a didwyll gyda defnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd pan mae pethau yn mynd o chwith ac sydd wedi arwain neu gallai arwain at niwed sylweddol. Mae dyletswydd broffesiynol didwylledd yn ymwneud â staff yng Nghymru fel aelodau o'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Rydym yn cytuno y dylid ymestyn dyletswydd didwylledd i gyrff y sector cyhoeddus.

DIFFYG HYDER YN Y RHEOLIADAU SY'N BODOLI?

8. Mae'n ymddangos, drwy'r Bil arfaethedig, bod Llywodraeth Cymru yn anfodlon gyda'r lefel o ddiffuantrwydd ac ymroddiad ar lefel uwch, fwy strategol a'i bod yn credu y bydd cyflwyno'r ddyletswydd didwylledd yn gwella sut mae sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn ymateb y tu hwnt i'r dyletswyddau a roddwyd arnyn nhw eisoes. O gofio bod ansawdd a mynediad at wasanaethau yn anghyson drwy Gymru, mae rhoi mesurau ychwanegol o graffu yn cael ei groesawu ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod Bil o'r fath yn cael ei gynnig, gan arwain at safbwynt nad yw Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi nad yw rheoliadau sy'n bodoli eisoes – er enghraifft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011, sy'n gosod dyletswydd hefyd ar ddarparwyr y gwasanaethau GIG i fod yn agored pan mae digwyddiadau niweidiol wedi digwydd – yn cael eu gorfodi.
9. Ymhellach, mae Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal yn disgwyl i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn agored, derbyngar a gonest gyda phobl pan mae rhywbeth yn mynd o chwith gyda'u triniaeth a'u gofal. Yn ogystal, mae canllawiau esboniadol yn bodoli ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maen nhw'n ei wneud yn eglur bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol gofal

cymdeithasol fod yn agored a gonest pan mae pethau yn mynd o chwith a byddan nhw yn atebol amdano (Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, adran 6.3). Mae angen i ddyletswydd didwylledd gael ei ymwreiddio drwy'r cyfan, o'r pwynt cyswllt cyntaf at gynnwys a chyflawniad cynllun gofal unigolyn. Yn ogystal, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) yn bwysig i ddinasyddion, lle mae amgylchiadau anffafriol. Mae ganddyn nhw'r hawl i ofyn am wybodaeth gan gyrrff cyhoeddus, ond nid yw hwn yn derbyn cymaint o gyhoeddusrwydd ag y dylai.

EGWYDDORION NOLAN YNGLŶN Â BYWYD CYHOEDDUS (1995)

10. Wrth gyflwyno lefel uwch o ddidwylledd ar gyfer y rhai hynny mewn swyddi cyhoeddus, mae'n rhaid ystyried Saith Egwyddor Nolan ynglŷn â Bywyd Cyhoeddus, yn cynnwys bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd agored a thryloyw a dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest. Bydd cyflwyno is-gadeirydd yn ychwanegu lefel arall o gyfrifoldeb ond, gyda mwy o fanwl gywirdeb, gallai hefyd weithredu mwy fel craffwr. Fel ag y tynnwyd sylw ato yn yr adroddiad o'r cyflweliadau a gynhaliwyd gan CGGC gyda saith o Gadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byddai cael cadeirydd ac is-gadeirydd annibynnol yn llwyddo yn rhannol i wella'r ddrwgdybiaeth rhwng sefydliadau, gwella cyfranogiad a chael gwared â rhwystrau diwylliannol ac ymddygiadol at newid y ffordd y mae gwasanaethau gofal a chefnogi yn cael eu llunio, eu comisiynu a'u cyflawni drwy ymwreiddio'r egwyddorion o gydgyhyrchu i feddwl a gweithredu bob dydd drwy eu harweinyddiaeth annibynnol.

DYLETSWYDD ANSAWDD

11. Yn ganolog i'r ddyletswydd hon, mae tair agwedd nad ydyn nhw'n cael eu hadlewyrchu yn y Bil.

- Nid yw cydgynhyrchu, a nodwyd yn benodol fel egwyddor graidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) ac fel nodwedd allweddol o *Gymru Iachach*, yn cael ei grybwyll yn y Bil. Dylai fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dinasyddion wrth galon newid neu wella darpariaeth.
- Sut fydd y Bil yn sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu cryfhau y tu hwnt i geisio cael datrysiad yn unig pan mae pethau yn mynd o chwith ac yn symud i fan lle mae dinasyddion yn cydgynhyrchu yn weithredol? Hynny yw, canolbwyntio ar beth sydd o bwys a chael eu trin yn gyfartal wrth wella ansawdd y gwasanaethau drwy lunio a chomisiynu ar y cyd gyda darparwyr gwasanaethau.
- Nid yw'r Bil yn cyfeirio o gwbl at swyddogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol yn yr un ffordd ag sydd wedi cael ei amlinellu yn y Bil ar gyfer sefydliadau ieuchyd.

MESUR ANSAWDD GYDA’N GILYDD A CHOMISIYNU A GYDGYNHYRCHIR

12. Mae angen cael mwy o eglurdeb ynglŷn â beth sy’n cael ei fesur a pha bryd i ddatgomisiynu yr hyn nad yw’n gweithio drwy fod yn ddigon dewr i gydnabod pa bryd i newid gwasanaethau neu gynyddu gwasanaethau. Mae gan ddinasyddion swyddogaeth hanfodol i chwarae fel cydgynhyrchwyr a chydasiantiaid ar gyfer newid. Mae cydgynhyrchu da yn golygu y dylai dinasyddion gael eu gwerthfawrogi am eu profiadau, eu hasedau, eu cryfderau a’u rhwydweithiau er mwyn comisiynu eu gwasanaethau gyda’i gilydd gyda sefydliadau ieched a gofal cymdeithasol. Dylai dinasyddion, gyda gweithwyr proffesiynol, fod wrth galon sut y mae gwasanaethau yn cael eu gwerthuso er mwyn mesur ansawdd, dysgu a newid yr hyn sydd ddim yn gweithio.
13. Fodd bynnag, mae gwella ansawdd y gwasanaethau drwy gydgyngyrchu yn cymryd amser; amser i adeiladu perthnasau sy’n ymddiried, amser i fesur a gwerthuso ac amser i lunio ar y cyd drwy newid yr amserlenni cyllid presennol (e.e. Cronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Drawsnewid) er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i bobl sy’n cael mynediad at wasanaethau ieched a gofal cymdeithasol.

CRYFHAU LLAIS Y DINASYDDION

14. Ychydig iawn o wahaniaeth a geir rhwng swyddogaeth bresennol y Cyngorau Iechyd Cymuned a’r hyn a gynigir ar gyfer Corff Llais y Dinesydd, ar wahân i gynnwys gofal cymdeithasol. Yr hyn a fydd yn gwahanu’r corff newydd yw sut y bydd yn cydgynhyrchu gyda dinasyddion. Mae’r Bil angen bod yn fwy eglur ynglŷn â sut y bydd hynny yn cael ei wireddu. Nid yw hyn ynglŷn â chwestiwn o gryfhau’r llais drwy’r Corff sy’n cynrychioli dinasyddion yn unig, mae ynglŷn â sut mae dinasyddion yn cymryd rhan weithredol yn hyn. Dylai’r [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd](#), fel ag ardystiwyd gan Lywodraeth Cymru, fod yn rhan annatod o hyn. Maen nhw’n cynnig cyfres o egwyddorion ar gyfer darparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl a chymunedau yn gallu ymgysylltu â phenderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw. Yn hyn o beth, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gael gennym ni ac eraill.
15. Mae’r ddyletswydd ar sefydliadau ieched a gofal cymdeithasol i wrando ar Gorff Llais y Dinesydd ynglŷn â materion sy’n gysylltiedig ag ansawdd yn gweithio yn unig os gall y Corff newydd hyrwyddo newid a chael hyder bod newid yn digwydd, a bod tystiolaeth gadarn ynglŷn â hyn yn cael ei darparu. Dylai dinasyddion fod ynghlwm â’r mater ar bob lefel ac nid yn cael eu cynrychioli yn unig fel y mae’r Bil yn ei amlinellu. Nid yw’r Bil yn amlinellu sut y bydd dinasyddion yn cael eu hymgysylltu, ac ni welir y gair ‘ymgysylltu’ ym mhrif gorff y Bil, felly hefyd y gair ‘ymglymiad’. Dywed amcan cyffredinol (13, [2]) bod yn ‘rhaid i Gorff Llais y Dinesydd geisio cael safbwynt y cyhoedd’, ond nid yw’n dweud sut mae hynny yn dod yn ffaith. Heb osod y paramedrau, hynny yw er enghraifft, ‘mae’n rhaid i’r Corff gydgyngyrchu gydag aelodau o’r cyhoedd’. Bydd yr amcan cyffredinol (13, [2]) yn agored i’w ddehongli a bydd cydgynhyrchu mewn perygl o gael ei wanhau ac esgus ei gefnogi. Byddai cryfhau’r agwedd hon hefyd yn darparu mwy o integreiddio â ffyrdd o weithio sydd wedi eu diogelu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

16. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn ddinasyddion a dylid cryfhau eu llais, gyda'r Saith Safon Genedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn cael eu defnyddio fel offeryn i sicrhau eu bod ynghlwm â gwella ansawdd y gwasanaethau, yn ogystal â llunio gwasanaethau er mwyn cwrdd â'u hanghenion. Gallai hyn yn ei dro helpu i liniaru effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chefnogi egwyddorion gofalus ac atal.

GWIRFODDOLWYR

17. Mae fersiwn hawdd ei deall o'r Bil yn cyfeirio at y defnydd o wirfoddolwyr. Mae hyn yn arwain y darllenwr i dybio bod swyddogaeth y gwirfoddolwr yn mynd y tu hwnt i'r swyddogaeth y gallan nhw ei chwarae fel aelodau o is-bwyllgorau, sy'n debygol o fod yn gyfyngedig drwy niferoedd. Sut fydd aelodau o'r cyhoedd yn cyfrannu at strwythur Corff Llais y Dinesydd? Mae hyn yn parhau yn aneglur.

18. Mae cyfle i ddatblygu cohort o wirfoddolwyr i gefnogi ymglymiad y dinasyddion, ond byddai hyn angen buddsoddiad i hyfforddi a chefnogi nid yn unig gwirfoddolwyr, ond aelodau o'r Corff ynglŷn â beth, sut a pham mae'n bwysig i gydgyhyrchu gyda dinasyddion.

CYSYLLTU A CHYDWEITHIO

19. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn i sefydliadau, ar draws sectorau, i gydgyhyrchu gyda dinasyddion a datblygu mecanweithiau i gynnwys aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y cyfrifoldeb o sefydlu Paneli Dinasyddion (e.e. Cynnwys Casnewydd, Panel Dinasyddion Rhanbarthol Gwent Fwyaf). Ar hyn o bryd, mae eu swyddogaeth a'u cylch gorchwyl yn amrywiol ac mae'n aneglur ynglŷn â beth a ddisgwyllir gan y Paneli hyn. Lle mae Paneli Dinasyddion yn bodoli, maen nhw yn gyffredinol yn cael eu defnyddio i ymgynghori â sawl dinesydd drwy, er enghraifft, holiaduron neu arolygon ynglŷn â meysydd pwnc/gwasanaeth y mae awdurdod lleol yn dymuno eu harchwilio, yn hytrach na dinasyddion yn dylanwadu ar yr agenda i archwilio gwasanaethau y maen nhw'n teimlo sydd angen eu hadolygu neu lle ceir problemau neu heriau.

20. Yn ychwanegol, mae gan awdurdodau lleol baneli gofal cymdeithasol a fforymau defnyddwyr, sydd â swyddogaeth gyda dinasyddion yn cyfrannu eu profiadau a'u gwybodaeth uniongyrchol. Mae angen cysylltiad rhwng y Paneli Dinasyddion a Chorff Llais y Dinesydd er mwyn cael darlun cadarn a chydlynol yn nhermau ansawdd a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Os nad yw hyn yn digwydd, mae perygl o ddyblygu gwasanaethau a chyrrff cyhoeddus yn arwain yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r agwedd o golli ymgysylltiad gwerthfawr y dinasyddion a'r cyfle i ddylanwadu ar ymddygiadau a'r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen er mwyn creu gwasanaethau

gwell a gwasanaethau mwy effeithiol ar y cyd.

21. Yn nhermau ansawdd a gwella gwasanaethau, roedd [Mesur y Mynydd](#) a chreu Rheithgor Dinasyddion i ganolbwyntio ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn arwain at sawl argymhelliad. Argymhellodd y 'Rheithgor' o 14 aelod fod 'angen i gydgyhyrchu gael ei ddiffinio a'i ymwreiddio yn ymarfer sy'n ddealliedig ac yn cael ei ddefnyddio gan bawb sydd ynghlwm â chreu, cyflawni a gwerthuso gwasanaethau gofal cymdeithasol' ac y 'dylai dinasyddion fod ynghlwm yn ffurfiol â mwy o graffu a chraffu dyfnach o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn adeiladu hyder yn y sector a sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chyflawni yn gywir.' Mae'r ddau argymhelliad hyn angen cael eu hystyried wrth sefydlu Corff Llais y Dinesydd. Sut fydd y Corff yn rhyngweithio â Mesur y Mynydd, defnyddio canfyddiadau Rheithgor gyntaf y Dinasyddion a gweithio gyda'r Paneli Dinasyddion i greu cyfle cyflawn i ddinasyddion gael llais a rheolaeth dros sut mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cyflawni yn awr ac yn y dyfodol?
22. Nodwn y gwaith presennol sy'n cael ei wneud gan Brifysgol De Cymru i ystyried effeithiolrwydd ac effaith gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a chredwn y byddai yn defnyddiol i ystyried gwaith Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth.

TRAFODAETH

23. Bydd CGGC a Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru yn falch o drafod y rhain neu unrhyw bwyntiau eraill sy'n gysylltiedig â'r ymateb ymgynghori hwn gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion os gofynnir am hynny.

Sally Rees

Rheolwr Gwirfoddoli CGGC/Swyddog Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol
srees@wcva.org.uk

Noreen Blanluet

Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru
noreen@copronet.wales

Awst 2019

